ATODLEN 7

PARTNERIAETHAU

## RHAN 4

TRAFODIADAU SY’N YMWNEUD Â THROSGLWYDDIADAU I BARTNERIAETH

*Trosglwyddo buddiant trethadwy i bartneriaeth: cyffredinol*

13 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys pan fo—

(a) partner yn trosglwyddo buddiant trethadwy i’r bartneriaeth,

(b) person yn trosglwyddo buddiant trethadwy i bartneriaeth yn gyfnewid am fuddiant yn y bartneriaeth, neu

(c) person sy’n gysylltiedig ag—

(i) partner, neu

(ii) person sy’n dod yn bartner o ganlyniad i’r trosglwyddiad neu mewn cysylltiad ag ef,

yn trosglwyddo buddiant trethadwy i’r bartneriaeth.

(2) Mae’r paragraff hwn yn gymwys pa un a yw’r trosglwyddiad mewn cysylltiad â ffurfio’r bartneriaeth neu’n drosglwyddiad i bartneriaeth bresennol.

(3) Cymerir bod y gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad yn hafal i—

$$GM \times (100 \quad SCI)\%$$

Ffigwr 9

pan fo—

GM yn werth marchnadol y buddiant trethadwy a drosglwyddir, ac

SCI yn swm y cyfrannau is.

(4) Mae paragraff 14 yn darparu ar gyfer pennu swm y cyfrannau is.

(5) Mae Rhan 7 yn gymwys os yw’r holl gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad, neu ran ohoni, ar ffurf rhent.

(6) Mae paragraffau 9 i 11 (cyfrifoldeb partneriaid) yn cael effaith mewn perthynas â thrafodiad y mae’r paragraff hwn yn gymwys iddo, ond y partneriaid cyfrifol yw—

(a) y rhai hynny a oedd yn bartneriaid yn union cyn y trosglwyddiad ac sy’n parhau i fod yn bartneriaid ar ôl y trosglwyddiad, a

(b) unrhyw berson sy’n dod yn bartner o ganlyniad i’r trosglwyddiad, neu mewn cysylltiad ag ef.

(7) Mae’r paragraff hwn yn cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddewis o dan baragraff 36.